# PWYLLGOR SAFONAU
# 5 RHAGFYR 2022

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gafodd ei gynnal fel cyfarfod o bell ar ddydd Llun, 5 Rhagfyr 2022

**YN BRESENNOL: Julia Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Teresa Carberry, Andrew Parkhurst ac Antony Wren

Aelodau Cyfetholedig: David Wynn Davies, Jacqueline Guest, Mark Morgan, Gill Murgatroyd a'r Cynghorydd Ian Papworth

**YMDDIHEURIADAU:** Swyddog Monitro

**YN BRESENNOL:** Y Dirprwy Swyddog Monitro a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 36. DATGAN CYSYLLTIADAU (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ar gyfer cofnod 39, dywedodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst, er ei fod wedi mynychu cyfarfodydd Cyngor Cymuned Cilcain yn rhinwedd ei swydd fel Aelod Etholedig lleol, nid oedd yn aelod o'r Cyngor Cymuned ac nid oedd ganddo gysylltiadau agos â'r aelodaeth.

## 37. COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2022, fel y cawsant eu cynnig a'u heilio gan Jacqueline Guest a'r Cynghorydd Ian Papworth.

Materion yn Codi

Cofnod 30 - cadarnhawyd bod adborth ysgrifenedig o'r ymweliadau wedi'u rhannu gyda'r Cynghorau Tref a Chymuned.

Cofnod 31 - dywedodd y Cadeirydd bod cyfarfod cyntaf y Fforwm Cenedlaethol wedi symud i 27 Ionawr 2023 am 2pm. Bu iddi roi trosolwg o eitemau'r rhaglen ar gyfer y cyfarfod hwnnw y byddai Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau ar draws Cymru yn cael gwahoddiad iddo, ynghyd â Chadeiryddion Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub.

Cofnod 33 - Gofynnodd y Cynghorydd Andrew Parkhurst am amseriad adolygiad nesaf Safon Sir y Fflint y byddai'r Dirprwy Swyddog Monitro yn ceisio cael eglurhad arno. Nodwyd bod hwn yn ffurfio rhan o adolygiad parhaus y Cod Ymddygiad Aelodau a fyddai'n cael ei ohirio o fis Gorffennaf 2023 i ddyddiad yn y dyfodol, yn dilyn yr eitem a drefnwyd ar gyfer y cyfarfod nesaf.

Cofnod 34 - bydd angen cadarnhad yn y cyfarfod nesaf ynghylch a yw'r wybodaeth am gyhoeddiad 'Ein Canfyddiadau' Ombwdsmon y Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i rannu â'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir.

## 38. GODDEFEBAU

Cadarnhaodd y Dirprwy Swyddog Monitro na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am oddefebau.

## 39. ADRODDIADAU O YMWELIADAU AELODAU ANNIBYNNOL Â CHYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Eglurodd y Cadeirydd beth oedd pwrpas yr eitem a gofynnodd am adborth ar lafar ar yr ymweliadau canlynol:

Cyngor Cymuned Argoed ar 1 Tachwedd 2022 a Chyngor Tref Saltney ar 9 Tachwedd 2022 (Mark Morgan).

Cyngor Tref Caerwys ar 18 Hydref 2022 a Chyngor Cymuned Brynford ar 8 Tachwedd 2022 (Gill Murgatroyd).

Cyngor Cymuned Cilcain ar 17 Hydref 2022 (Cadeirydd).

Codwyd y pwyntiau canlynol a oedd i'w bwydo'n ôl i gefnogi Cynghorau Tref a Chymuned yn eu gweithdrefnau:

- Meysydd o arfer da - roedd yr Aelodau Annibynnol yn falch o weld bod 'datgan cysylltiadau' yn eitem sefydlog ar bob rhaglen a bod yr holl gyfarfodydd wedi'u cadeirio'n dda gyda chefnogaeth dda gan Glercod a digon o gyfleoedd i bawb gymryd rhan.
- Y byddai'r canlynol yn cael eu gweld fel arfer da:
  - Cadeiryddion/Clercod i wahodd datganiadau o gysylltiad ar lafar o dan yr eitem benodol honno gan nodi y gall cyfranogwyr ddatgan cysylltiad fel bo angen drwy gydol y cyfarfod.
  - I egluro'r symiau o arian i'w roi i grwpiau cymunedol (fel y soniwyd mewn cyfarfod penodol) i ddangos tryloywder ac i gynorthwyo aelodau, os bydd mater yn codi ynghylch cysylltiadau posibl.
  - I sicrhau bod eitemau amhenodol a godwyd gan aelodau yn cael eu rhestru ar raglenni lle bo'n bosibl ac yn cael eu trafod gyda'r Cadeirydd a'r Clerc o flaen llaw i helpu i baratoi yn unol â hynny, i gynorthwyo aelodau gyda chysylltiadau posibl ac osgoi unrhyw oedi o ran trafod y busnes.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad gan Gill Murgatroyd a Mark Morgan.

**PENDERFYNWYD:**

Derbyn yr adroddiadau llafar a rhoi adborth i Gynghorau Tref a Chymuned.

## 40. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD HEFYD YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.00pm, a gorffennodd am 6.50pm)

..............................

**Y Cadeirydd**